

# Iesu’n mynd i briodas

www.lambsongs.co.nz Gan Jill Kemp (Cyf. Susan Williams) Lluniau: Richard Gunther




Cafodd Iesu a’i fam, Mair, wahoddiad i briodas. Dyma’r hanes am wyrth gyntaf Iesu.



Roedd yna briodas yn mynd i fod. Roedd pawb yn brysur yn cael pethau’n barod. Gwahoddodd y priodfab a’r briodferch eu teuluoedd a’u ffrindiau. Roedd Iesu a’i ddisgyblion a’i fam, Mair, wedi eu gwahodd hefyd.



Roedd y briodferch yn edrych mor hardd. Llanwodd pawb eu cwpanau â gwin oedd wedi ei wneud o sudd grawnwin. “Ein dymuniadau gorau am fywyd hapus,” galwodd y gwesteion.



Yn fuan iawn roedd y gwin wedi darfod. Roedd pawb yn gofyn am ragor ac roedd y gweision yn poeni. Byddai hyn yn difetha’r parti. Beth oedden nhw’n mynd i’w wneud?




Dywedodd mam Iesu, “ Wnaiff Iesu eich helpu chi. Gwnewch beth bynnag y bydd yn ei ofyn i chi.” Dywedodd Iesu, “ Llenwch y jariau mawr yna â dŵr.” A dyna’r gweision yn gwneud popeth yn union fel roedd Iesu wedi gofyn iddyn nhw ei wneud.



Wnaeth y gweision lenwi’r chwe jar mawr reit i’r brig â dŵr. Pan arllwyswyd y dŵr i’r cwpanau roedd gwyrth wedi digwydd.



Doedd y gwesteion erioed wedi blasu diod cystal â hwn. Dim ond y gweision wyddai mai Iesu drodd y dŵr yn win.



Ble bynnag mae Iesu’n mynd mae’n gwybod yn iawn sut i fendithio pobl. Gall ef roi’r bywyd GORAU UN i ni.